YSGOL UWCHRADD TYWYN
Fforddyr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU
☎ 01654 710256

Pennaeth/Head Teacher: Mrs Helen Lewis

www.tywyn.gwynedd.sch.uk ✉ swyddfa@tywyn.gwynedd.sch.uk @YsgolUwchTywyn

Annwyl Riant/Gwarcheidwad 21/09/21

Newidiadau i olrhain cysylltiadau a hunan ynysu

Ysgrifennwn i'ch hysbysu o rhai newidiadau i'r drefn pan fydd rhywun yn profi'n bositif am COVID-19.

Os yw'ch plentyn yn profi'n bositif am COVID-19, bydd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu y GIG yn cysylltu gyda chi. Byddant yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u cynllunio i adnabod y rheini sydd wedi bod mewn cyswllt agos gyda'ch plentyn yn ddiweddar. Yna bydd yr ysgol yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Nid oes rhaid i'r rheini sydd o dan 18 oed neu sydd wedi'u brechu'n llawn hunan ynysu os ydyn nhw yn cael eu nodi fel cysylltiadau agos. Ond fe fydd yr ysgol yn cysylltu gyda nhw i roi gwybod eu bod wedi bod mewn cyswllt agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif. Byddant hefyd yn cael cynnig dau brawf PCR ac yn cael gwybodaeth a chyngor ar sut i leihau'r risg o basio'r feirws i rywun arall. Os yw'ch plentyn yn cael ei nodi fel cyswllt agos, mae dal modd iddyn nhw fynychu'r ysgol oni bai eu bod yn datblygu symptomau neu'n cael cyngor penodol gan Profi, Olrhain, Diogelu i beidio mynd i'r ysgol. Parhewch i roi gwybod i ni os yw eich plentyn yn profi'n bositif os gwelwch yn dda.

Os oes patrwm o achosion efallai bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn gofyn i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y sefyllfa a'ch atgoffa o gamau allweddol, gan gynnwys eich cynghori i fod yn wyliadwrus am symptomau newydd y gallai eich plentyn eu datblygu, ac i gadw draw oddi wrth deulu a ffrindiau bregus yn y tymor byr.

Ry'n ni yn disgwyl bydd achosion o COVID-19 ar draws ein cymuned dros yr wythnosau nesaf, ond nid yw hyn yn golygu bod COVID-19 yn lledu yn yr ysgol. Parhewch i fod yn wyliadwrus am symptomau. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, archebwch brawf PCR ar gyfer eich plentyn drwy ymweld â www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau - peswch parhaus newydd, twymyn neu dymheredd uchel, neu colli synnwyr blasu neu arogli, neu wedi sylwi ar newid ynddynt – hynanynysu nes bod canlyniad y prawf wedi eich cyrraedd. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau hunanynysu yn https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu.

Diolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i gefnogi'ch plentyn a'n hysgol.

Yn gywir

Helen Lewis

Pennaeth

MARC GYRFA CYMRU CAREERS WALES MARK
education extra